Uned 4B Datblygu delweddau gan ddefnyddio patrymau ailadordd

Ynglyn â'r uned hon:

Yn yr uned hon mae plant yn dysgu sut i ddatblygu syniadau gweledol a gwireddu'r syniadau hyn gan ddefnyddio TGCh. Bydd angen i blant ddefnyddio pecyn graffeg TGCh i archwilio syniadau a'u harbrofi, a byddant yn diwygio ac yn addasu eu gwaith i gyflawni canlyniadau penodol. Byddant hefyd yn dysgu sut i gadw eu gwaith wrth iddynt fynd yn eu blaen.

Bydd y plant yn dysgu sut i ddefnyddio offer TGCh mewn dull priodol a byddant yn dethol rhannau o ddelwedd i dorri, copïo a newid. Byddant yn dysgu sut i allgludo eu gwaith i becynnau eraill a mewngludo delweddau o ffynonellau megis 'clip art', sganwyr neu gamerâu digidol .

Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth ddefnyddio TGCh i gynhyrchu lluniau, cynlluniau a mapiau mewn celf, dylunio a thechnoleg, a daearyddiaeth.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'n adeiladu ar Uned 2B 'Creu lluniau'

Geirfa:

torri | copi | gludo | mewngludo | allgludo | dadwneud | 'cadw fel'| sganiwr | clip art | camera digidol |

Adnoddau:

pecyn graffeg cyfrifiadurol gydag amrediad o daclau a nodweddion golygu **|** sganiwr, camera digidol neu 'clip art' |

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: defnyddio pecyn graffeg cyfrifiadurol i ddatblygu delwedd gan ddefnyddio amrediad o offer, cadw ac adfer eu gwaith.

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: defnyddio pecyn graffeg cyfrifiadurol i ddatblygu delwedd

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio pecyn graffeg cyfrifiadurol i ddatblygu a mireinio delwedd gan ddethol y offer mwyaf priodol a chadw drafftiau

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Gosod yr Olygfa • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i ddatblygu delweddau	♦ Atgoffwch y dosbarth sut mae nodweddion TGCh fel torri a gludio yn gallu eu helpu wrth iddynt ysgrifennu. Esboniwch eu bod nhw'n mynd i ddefnyddio TGCh i ddatblygu lluniau, gan ddefnyddio offer a thechnegau tebyg.	• sylweddoli bod modd defnyddio TGCh i ddatblygu delweddau	
Tasg fer wedi'i ffocysu • **syniad allweddol:** bod modd cydosod lluniau drwy ailadrodd elfennau • **techneg:** defnyddio stampiau a/neu'r offer copïo	♦ Casglwch bapur lapio sy'n defnyddio patrymau ailadrodd. Trafodwch sut mae'r patrymau wedi'u creu a siaradwch am y lliwiau cefndir a ddefnyddir. ♦ Mae gan lawer o becynnau graffeg stampiau parod neu maen nhw'n darparu offer i greu stampiau. Dangoswch i'r dosbarth sut i ddefnyddio stampiau a gofynnwch i'r plant greu papur lapio sy'n seiliedig ar thema, ee *planhigion neu anifeiliaid*. Anogwch y plant i arbrofi gyda chefndiroedd lliflenwi gwahanol.	• creu patrymau ailadrodd gan ddefnyddio'r stampiau a/neu'r taclau copïo a dadwneud	• Anogwch y plant i ddefnyddio'r gorchymyn 'dadwneud' i fynd yn ôl i gam blaenorol os yw lliw neu batrwm yn aflwyddiannus.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)			
• **techneg:** newid maint yr offer brwsh i greu effeithiau	♦ Trafodwch waith Seurat a sut mae'n defnyddio dotiau. Dangoswch sut i newid maint a phatrwm y teclyn brwsh i gynhyrchu effaith 'pwyntilydd'. ♦ Gofynnwch i'r plant ail-greu brasluniau o'u llyfrau braslunio ar y sgrin gan ddefnyddio techneg 'pwyntilydd'.	• creu lluniau gan ddefnyddio amrywiaeth o feintiau ac effeithiau brwsh	• Dylai'r plant wybod sut i newid meintiau brwsh yn barod ond efallai nad ydynt wedi'i ddefnyddio i greu'r effaith hon o'r blaen
• **techneg:** dewis rhannau, eu copïo a'u hail-feintio	♦ Dangoswch sut i ddewis, copïo ac ail-feintio rhannau o'r sgrîn. ♦ Dangoswch enghreifftiau o bysgod trofannol i'r dosbarth. Gofynnwch i blant greu tanc pysgod drwy dynnu llun pysgodyn unigol a gwneud copïau lluosol o feintiau gwahanol.	• dewis rhannau priodol, eu copïo a'u hail-feintio	• Bydd rhai plant yn gallu copïo lluniau ond yn methu eu hail-feintio. • Efallai gallai disgyblion mwy galluog droi'r lluniau os yw'r nodwedd hon gan y pecyn
• **techneg:** defnyddio amrediad o effeithiau gweledol fel adlewyrchiad neu gymesuredd	♦ Trafodwch ddyluniadau sy'n defnyddio cymesuredd, *ee Carpedi Islamaidd*. Dangoswch sut mae rhaglen baentio'n gallu creu patrymau cymesur yn awtomatig. ♦ Gofynnwch i'r plant gynhyrchu eu dyluniadau eu hunain ar gyfer carpedi gan ddefnyddio'r teclyn cymesuredd.	• creu patrymau gan ddefnyddio'r teclyn cymesuredd	• Gall disgyblion argraffu eu patrymau a darganfod sawl llinell cymesuredd sydd ganddo. Cysylltwch hyn â mathemateg.

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.) • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i ail-greu delweddau a gynhyrchwyd â llaw • **syniad allweddol:** bod delwedd sgrîn yn gallu bod yn gynnyrch terfynol • **techneg:** defnyddio'r gorchymyn 'cadw fel' i gadw drafftiau	♦ Gofynnwch i'r plant greu nifer o batrymluniau du a gwyn ar gyfer ffenestri gwydr lliw gan ddefnyddio ysgrifbinnau ffelt neu inc, wedi'u hysbrydoli o bosib gan waith Charles Rennie Mackintosh neu gan frasluniau o ffenestri eglwysi lleol. Sganiwch nifer o frasluniau i mewn i'r cyfrifiadur fel man cychwyn ar gyfer gwaith ar oleuni a lliw. Dangoswch i'r plant sut i ddefnyddio'r gorchymyn 'cadw fel' i gadw drafftiau ♦ Gofynnwch i'r plant arbrofi gyda lliwiau drwy liflenwi'r patrymluniau â lliwiau amrywiol a gofynnwch iddynt ddefnyddio'r gorchymyn 'cadw fel' i gadw fersiynau sy'n gweithio'n dda. Trafodwch ansawdd y goleuni a grëir .	• sylweddoli bod delwedd sgrîn yn gallu bod yn gynnyrch terfynol • cadw drafftiau sy'n dangos datblygiad eu dyluniad	O bosib bydd angen atgyffwrdd amlinellau du i atal y lliflanw rhag gollwng. Gellid ymgorffori gwaith y plant mewn 'oriel gelf' electronig mewn sioe sleidiau, neu fel rhan o wefan yr ysgol. Mae hyn yn annog plant i weld y fersiwn ar y sgrîn fel yr un terfynol
Tasg Asesu • defnyddio'r sgiliau a'r technegau a ddysgwyd i drefnu, ad-drefnu a chyfathrebu syniadau • dewis gwybodaeth a chyfryngau priodol a'u paratoi i'w prosesu gan ddefnyddio TGCh	♦ Dangoswch collage amlgyfrwng fel 'Guitar' gan Pablo Picasso i'r dosbarth, a thrafodwch rai o'r technegau a ddefnyddiwyd. Anogwch plant i ddod o hyd i ddeunydd y mae modd ei sganio, *ee o bapurau newydd neu gylchgronau .* ♦ Gofynnwch i blant ddefnyddio'r technegau amrywiol a ddysgwyd i ymgorffori'r delweddau a sganiwyd er mwyn creu delweddau cyfansawdd sy'n seiliedig ar arsylwi offerynnau cerdd yn uniongyrchol. Anogwch nhw i ffocysu ar fanylion penodol fel pegiau cyweirio neu allweddi. Gellid rhoi safbwynt gwahanol i bob plentyn. Atgoffwch nhw am bwysigrwydd cadw drafftiau. ♦ Gofynnwch i blant argraffu copïau lluosol o'u gwaith a defnyddiwch y gwaith a argraffwyd, ynghyd â delweddau eraill a gasglwyd, i wneud collage amlgyfrwng.	• defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a grëwyd ar y cyfrifiadur, ac i ffwrdd oddi wrtho, a'u defnyddio i greu delwedd derfynol	

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA